

## Cydlynnydd Arweiniol Sero Net a Sgiliau Gwyrdd Sector Addysg Bellach

<b>Adrodd i</b>	Cyfarwyddwr Datblygu
<b>Contract</b>	Llawn amser, cyfnod penodol tan 31 Mawrth 2023. Ystyrir cyfleoedd secondiad
<b>Cyflog</b>	£42,798 - £45,596 y flwyddyn
<b>Buddion</b>	37 diwrnod o wyliau blynyddol ynghyd ag 8 o wyliau cyhoeddus a hyd at 5 diwrnod dewisol, mynediad at gynllun pensiwn buddion diffiniedig (opsiwn LGPS), opsiynau gweithio hyblyg, cynlluniau aberthu cyflog ar gyfer talebau gofal plant, maes parcio am ddim
<b>Lleoliad</b>	Cyfuniad o'r swyddfa (Caerdydd) a gweithio o gartref
<b>Oriau</b>	37 awr yr wythnos

### Prif Ddiben y Rôl

- Cydlynu'r gwaith o ddatblygu cynlluniau darparu sgiliau ar gyfer darpariaeth Sero Net a Sgiliau Gwyrdd ar draws rhwydwaith Colegau Addysg Bellach Cymru i gyd-fynd â chynllun Strategol Llywodraeth Cymru i gyflawni Cymru Sero Net erbyn 2050.
- Cynnal ymarfer mapio o'r holl ddarpariaeth bresennol a'r ddarpariaeth arfaethedig ar gyfer Sgiliau Gwyrdd ar draws tirwedd addysg bellach Cymru; gyda'r nod o hwyluso dull cydgysylltiedig o ddarparu Sgiliau Gwyrdd ledled Cymru.
- Cynrychioli, hyrwyddo ac ymgysylltu â'r rhwydwaith Colegau addysg bellach fel partner strategol i sefydliadau allanol i gefnogi a chodi ymwybyddiaeth o'r opsiynau sgiliau a hyfforddiant i gefnogi'r camau tuag at allyriadau Sero Net.

### Prif Ddyletswyddau

- Gweithredu fel y pwynt cyswllt cyntaf o fewn Colegau Cymru ar gyfer swyddogion Llywodraeth Cymru, Diwydiant Sero Net Cymru (NZIW) a rhanddeiliaid allanol eraill, gan gynrychioli a chydlynu ymateb Colegau Cymru i ddatblygiad Cymru Sero Net a Sgiliau Gwyrdd.
- Gweithredu fel cydlynnydd arweiniol ar draws yr holl sefydliadau addysg bellach i oruchwylio gwaith mapio a chwmpasu i lywio darpariaeth a chynllunio Sero Net dros y tymor byr, canolig a

hwy - gan gysylltu â darpariaeth dysgu seiliedig ar waith ehangach ac addysg uwch lle bo hynny'n berthnasol.

- Datblygu a chyflwyno trosolwg Cynllun Sgiliau o ddarpariaeth addysg bellach i gefnogi'r gofynion sgiliau Sero Net dros y tymor byr, canolig a hwy.
- Ar y cyd â'r Grŵp Dysgu Seiliedig ar Waith Strategol, rhoi cyngor a chymorth i golegau sy'n aelodau o ran datblygiadau parhaus.
- Ymgysylltu ag uwch arweinwyr, arweinwyr cwricwlwm a dysgu seiliedig ar waith ar draws holl golegau addysg bellach Cymru i ddatblygu perthnasau a sianelau cyfathrebu effeithiol i hwyluso'r broses o drosglwyddo gwybodaeth yn ddiogel i lywio ymateb y sector.
- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru a'r Cynghorydd Strategol ar gyfer Dysgu Seiliedig ar Waith a Chyflogadwyedd i sefydlu rhwydweithiau effeithiol gyda rhanddeiliaid allanol, gan gynnwys Diwydiant Sero Net Cymru (NSIW), asiantaethau, diwydiant, rheoleiddwyr, cyflogwyr a chyrrff dyfarnu i lywio, arwain a llunio cynllun ymateb Sero Net y sector.
- Trefnu a hwyluso digwyddiadau ymgysylltu rhanbarthol a chenedlaethol sy'n dod â rhanddeiliaid strategol ynghyd i hyrwyddo a lledaenu dealltwriaeth ar draws y sector o'r agenda Sero Net / Sgiliau Gwyrdd a cherrig milltir allweddol.
- Meddu ar yr wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau gwleidyddol, cymdeithasol ac economaidd mewn perthynas â Chymru Sero Net gan sicrhau bod data, cynlluniau a gwybodaeth am y farchnad lafur yn cael eu lledaenu'n effeithiol i golegau sy'n aelodau er mwyn llywio'r gwaith o gynllunio sgiliau a'r cwricwlwm.
- Rhoi diweddariadau am gynnydd ar draws ystod o gynulleidfaoedd mewnol ac allanol gan gynnwys NZIW, Uwch Reolwyr, Fforwm y Penaethiaid a Bwrdd Cyfarwyddwyr ColegauCymru a'r Grŵp Dysgu Seiliedig ar Waith Strategol ar gynnydd a deilliannau prosiectau.
- Hyrwyddo a chefnogi presenoldeb, ymgysylltu a chodi ymwybyddiaeth o newyddion, gweithgareddau a digwyddiadau ymgynghori sy'n ymwneud â Chymru Sero Net ar draws Sector addysg bellach Cymru.
- Nodi a lledaenu astudiaethau achos o arfer sy'n arwain y sector lle mae addysg bellach yn cydweithio â phartneriaid yn y diwydiant i ddatblygu Sgiliau Gwyrdd a darpariaeth ôl-osod.
- Llunio adroddiadau cynnydd i roi gwybod i rhanddeiliaid strategol am yr ymdrech i ymateb ar ran colegau sy'n aelodau.
- Arwain ar ddatblygu achos busnes ar draws y sector i sicrhau cyllid a grantiau i gefnogi'r gwaith o ddatblygu atebion cynaliadwy.
- Cynorthwyo wrth nodi arbenigedd Sgiliau Gwyrdd posibl i gefnogi datblygiad pellach y prosiect a phenodi Arweinydd Arbenigol Sero Net.
- Ymgymryd â thasgau rhesymol eraill yn unol â chyfarwyddyd y Prif Weithredwr.

## Perthnasau Allweddol

Bydd deiliad y swydd yn sefydlu perthnasau gwaith da gydag ystod eang o rhanddeiliaid mewnol ac allanol gan gynnwys Swyddogion Llywodraeth Cymru, holl staff ColegauCymru, partneriaid (gan gynnwys ymgynghorwyr allanol) a chynrychiolwyr colegau sy'n aelodau a rhanddeiliaid allanol allweddol gan gynnwys darparwyr dysgu seiliedig ar waith a'r sector addysg uwch.

*Noder: Caiff y Disgrifiad Swydd hwn ei adolygu a'i ddiwygio yng ngoleuni galwadau proffesiynol newidiol mewn ymgynghoriad â deiliad y swydd. Nid yw'n ddogfen gaeth nac anhyblyg ond ei nod yw darparu canllawiau ynghylch y dyletswyddau disgwylidig tra bod y swydd yn mynd yn ei blaen.*

## Manyleb y Person

Mae'r wybodaeth, y sgiliau a'r profiad mae ColegauCymru yn dymuno'u gweld yn yr unigolion mae'n ceisio ei recriwtio wedi'u crynhoi fel a ganlyn:

**Dull asesu: Ff/G = Ffurflen gais, A = Asesiad, C = Cyfweliad**

Gwybodaeth, Hyfforddiant a Chymwysterau	Ff/G	A	C
Gwybodaeth a dealltwriaeth o Hyfforddiant a Chymwysterau Addysg Alwedigaethol Ôl-16 yng Nghymru.	x		x
Gwybodaeth a dealltwriaeth o rôl ganolog Colegau Addysg Bellach wrth arwain ar yr agenda Sgiliau Gwyrdd.	x		x
Addysg i lefel gradd mewn pwnc perthnasol neu brofiad proffesiynol cyfatebol	x		
<b>Profiad</b>			
Dangos hanes cadarn o arwain neu hwyluso adolygiadau cwricwlwm a / neu ddatblygu llwybrau galwedigaethol newydd ar y cyd â diwydiant yn y sector Addysg Bellach.	x		x
Profiad o feithrin perthnasau gwaith effeithiol gydag uwch ddylanwadwyr ac ar draws ystod o randdeiliaid mewnol ac allanol.	X		x
Profiad o gydlynu a hwyluso prosiectau / mentrau amlasiantaethol ac ymgysylltu a chael effaith gadarnhaol ar draws ystod eang o randdeiliaid.	x		x
Profiad o weithredu gyda'r lefelau uchaf o broffesiynoldeb ac integriti personol.	x		x
<b>Sgiliau</b>			
Y gallu i feddwl yn strategol a llunio a chyfleu gweledigaeth gymhellol i'r sector fel cyfrwng hanfodol i gefnogi Cymru Sero Net.		x	x
Sgiliau cadarn o ran meithrin perthnasau a sgiliau rhyngpersonol gyda'r gallu i ysgogi, annog, hyrwyddo a herio rhanddeiliaid i 'wneud y peth iawn' pan fo angen hynny.		x	x
Sgiliau cyfathrebu o'r radd flaenaf gyda'r gallu i wrando, strwythuro a chyflwyno negeseuon yn glir (mewn cyflwyniadau ac mewn adroddiadau ysgrifenedig) fel eu bod yn cael effaith.		x	x
Y gallu i greu a chynnal momentwm ac alinio â chynllun Cymru Sero Net Llywodraeth Cymru gan sbarduno gweithredu, datrys rhwystrau canfyddedig a hyrwyddo'r gwaith o ddatblygu a gweithredu'r cynllun yn raddol.		x	x

Sgiliau trefnu a chynllunio cadarn ynghyd â sgiliau adolygu a dadansoddi'n gritigol.		x	x
Hyfedredd yn y defnydd o MS Office a ffyrdd clyfar o weithio.	x		
Y gallu i weithio'n awtonomaidd gyda phwyntiau cyswllt rheolaidd gyda rhanddeiliaid perthnasol.	x		x
<b>Gofynion Eraill</b>			
Y gallu i weithio'n hyblyg yn unol â gofynion gwaith gan gynnwys teithio a gwaith achlysurol gyda'r nos ac ar benwythnosau	x		x
Rhoi gwerth ar amrywiaeth a chydraddoldeb	x		x
Cydnabod a chynnal cyfrinachedd bob amser	x		

## Yr Iaith Gymraeg

Gofynion Iaith Gymraeg Mae Colegau Cymru yn sefydliad dwyieithog balch ac mae sgiliau Cymraeg yn cael eu hystyried yn gaffaeliad i'r sefydliad. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd datblygu a thyfu gweithlu dwyieithog ac yn annog a chefnogi staff i ddysgu, datblygu a defnyddio eu sgiliau iaith Cymraeg yn y gweithle.

Mae sgiliau Cymraeg yn ddymunol ond nid yn hanfodol ar gyfer y rôl hon. Anogir ymgeiswyr nad oes ganddynt sgiliau iaith Gymraeg neu nad yw eu sgiliau ar hyn o bryd yn cwrdd â'r lefel a ddymunir ond sy'n gallu dangos ymrwymiad i wella lefel eu cymhwysedd. Mae croeso i ymgeiswyr gysylltu â Colegau Cymru i drafod y gofyniad hwn

## **Crynodeb o'r Telerau ac Amodau**

### **1. Contract**

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cael cynnig contract cyflogaeth cyfnod penodol llawn amser, tan 31 Mawrth 2023. Bydd y sefydliad yn ystyried cyfleoedd secondiad am y cyfnod.

### **2. Cyflog**

Y cyflog ar gyfer y swydd hon yw £42,798 - £45,596.

### **3. Hawl Gwyliau**

Yr hawl gwyliau blynyddol yw 37 diwrnod. Yn ogystal â'r hawl bersonol hon, mae gennych hawl hefyd i 8 diwrnod o wyliau cyhoeddus ynghyd â diwrnodau consesiynol ychwanegol yn unol â'r hyn a benderfynir gan y Prif Swyddog Gweithredol.

### **4. Oriau Gwaith**

Yr oriau contract llawn amser yw 37 awr yr wythnos ac eithrio egwyliau bwyd dyddiol. Bydd yr oriau gwaith yn cyd-fynd â'r gofyn i ddiwallu anghenion y swydd. Efallai y bydd disgwyl i ddeiliad y swydd fynychu cyfarfodydd gyda'r nos ac ar y penwythnos yn ôl y gofyn. Mae polisi TOIL (amser mewn llaw) ar waith.

### **5. Hawl i Bensiwn**

Bydd Colegau Cymru yn gwneud cyfraniad misol i'ch cynllun pensiwn. Os nad ydych yn cyfrannu tuag at gynllun pensiwn ar hyn o bryd, byddwch yn cael eich cofrestru'n awtomatig i gynllun pensiwn yn y gweithle pan gewch eich penodi.

### **6. Cyfnod Rhybudd**

Bydd gofyn rhoi tri mis o rybudd.

### **7. Cyfnod Prawf**

Bydd cyfnod prawf o dri mis yn berthnasol i'r swydd hon.

### **8. Gwiriad Datgeliad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)**

Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus gwblhau cais am Ddatgeliad Safonol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Yn y cyfweiliad, gofynnir i chi a oes gennych unrhyw euogfarnau, rhybuddiadau, ceryddon neu rybuddion terfynol na fyddent yn cael eu hidlo yn unol â chanllawiau cyfredol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Mae'n bwysig tynnu sylw at y ffaith nad yw meddu ar euogfarn droseddol yn atal ymgeisydd yn awtomatig rhag cael cynnig cyflogaeth.

## 9. Lleoliad

Lleolir y swydd yn Uned 7, Cae Gwyrdd, Greenmeadow Springs, Tongwynlais, Caerdydd, CF15 7AB ond bydd y rôl yn cynnwys cyfuniad o weithio yn y swyddfa ac o gartref. Bydd y swydd yn cynnwys teithio ledled Cymru, y DU ac yn rhyngwladol. Bydd yr ymgeisydd yn meddu ar drwydded yrru ddilys gyfredol a byddai mynediad i gar yn fanteisiol.

## 10. Eich data

Ymdrinnir â'ch gwybodaeth yn unol â deddfwriaeth diogelu data. Mae mwy o wybodaeth am sut rydym yn prosesu data personol i'w gweld yn ein [Hysbysebiad Preifatrwydd](#).

## Cwblhau'r Ffurflen Gais

Fe'ch cynghorir i wneud eich cais cyn gynted â phosibl gan ein bod yn cadw'r hawl i gau'r cyfnod ymgeisio'n gynnar os derbynir nifer fawr o geisiadau addas. Nid oes angen i ymgeiswyr blaenorol wneud cais.

Mae'r ffurflen gais yn chwarae rhan hollbwysig yn ein proses ddethol. **Peidiwch ag anfon eich CV (curriculum vitae) safonol atom gan na fyddwn yn ei ystyried.** Mae'n hanfodol eich bod yn llenwi'r ffurflen mor llawn a chywir â phosibl. Byddwn yn rhoi sylw arbennig i ba mor dda mae eich profiad a'ch sgiliau yn cyd-fynd â meini prawf **Manyleb y Person**. Felly, dylech egluro sut rydych yn cyd-fynd â'r meini prawf hyn.

Rhaid cyflwyno ceisiadau drwy e-bost i [hr@colegaucymru.ac.uk](mailto:hr@colegaucymru.ac.uk).

Ar ôl y dyddiad cau bydd Adnoddau Dynol yn ystyried y ceisiadau ac yn dethol ymgeiswyr i'w gwahodd am gyfweiliad. Cewch wybod drwy eich cyfrif e-bost a ydych wedi cyrraedd y rhestr fer ai peidio. Os cewch eich cynnwys ar y rhestr fer, bydd manylion eich cyfweiliad yn dilyn.

## Statws Mewnfudo/Cymhwysra i weithio yn y DU

O dan Adran 8 o Ddeddf Lloches a Mewnfudo 1996, mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i bob darpar weithiwr ddarparu tystiolaeth ddogfennol i gadarnhau eu bod yn gymwys i weithio yn y DU. Os na allwch gynhyrchu'r dystiolaeth angenrheidiol, ni chaniateir yn ôl y gyfraith i ni ystyried eich cais.

## Geirdaon

Gofynnir am eirdaon gan ganolwyr ar gyfer yr ymgeisydd llwyddiannus. Bydd angen i chi ddarparu enwau, cyfeiriadau a, lle bo'n bosibl, cyfeiriadau e-bost ar gyfer dau ganolwr nad ydynt yn perthyn i chi. Dylid sicrhau mai un ohonynt yw eich cyflogwr presennol neu'ch cyflogwr diweddaraf a dylai fod yn rhywun sydd wedi'i awdurdodi i siarad ar ran y cyflogwr, nid yn gydweithiwr yn unig. Os ydych yn gweithio i goleg ar hyn o bryd, byddem yn disgwyl i'r pennaeth fod yn ganolwr. Nid yw geirdaon personol yn dderbyniol.

## Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Gofynnwn ichi lenwi ein Ffurflen Cydraddoldeb ac Amrywiaeth pan fyddwch yn gwneud cais. Mae hyn yn wirfoddol, ac yn anhysbys, ond mae'n ein helpu i sicrhau ein bod yn gynhwysol yn ein recriwtio.

## Anabledd

Os oes angen unrhyw help arnoch i lenwi'ch ffurflen gais oherwydd anabledd, cysylltwch â [hr@colegaucymru.ac.uk](mailto:hr@colegaucymru.ac.uk). Os cewch eich cynnwys ar y rhestr fer, byddwn yn hapus i drafod unrhyw drefniadau arbennig gyda chi a allai eich helpu yn y cyfweiliad.